Elin Jones AS
Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

18 Medi 2020

**Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC)**

Annwyl Lywydd,

Ysgrifennais at y Pwyllgor Busnes yn gynharach eleni mewn perthynas â'r broses graffu statudol ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC).

Roedd fy llythyr yn cyfeirio at argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig y dylid cyflwyno Rheol Sefydlog dros dro i hwyluso'r broses graffu statudol. Fe wnaethoch chi ateb fod y Pwyllgor Busnes yn fodlon bod y Trefnydd wedi cytuno y byddai argymhellion y Pwyllgor yn cael eu bodloni heb fod angen Rheol Sefydlog dros dro.

Ar 12 Chwefror 2020, ysgrifennodd y Trefnydd at Reolwyr Busnes, gan ddweud y byddai'n: "*Cyflwyno cynnig diwygiedig yn amser y llywodraeth i roi cyfle i'r Senedd fynegi ei barn ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft (ond nid ei gymeradwyo). Bydd y ddadl yn cael ei chynnal yn ystod cyfnod ystyried 60 diwrnod y Senedd fel y gall y llywodraeth fyfyrio ar benderfyniad y Senedd ac argymhelliad y Pwyllgor(au) mewn modd amserol.*"

Nid yw'r FfDC wedi'i osod yn y Senedd eto ac, felly, nid yw'r cyfnod craffu statudol 60 diwrnod wedi cychwyn. Fodd bynnag, sylwaf fod Llywodraeth Cymru wedi trefnu dadl ar y FfDC ar 29 Medi. Ni fydd yn bosibl i waith pwyllgorau, gan gynnwys unrhyw gwaith ymgynghori â rhanddeiliaid, lywio'r ddadl.

Mae'r cyfnod craffu statudol wedi'i ddynodi ar gyfer gwaith craffu. Nid yw'n glir pam mae Llywodraeth Cymru wedi dewis trefnu dadl mor gynnar yn y cyfnod o 60 diwrnod. Beth

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddNHAMG@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCCERA@senedd.wales
0300 200 6565

bynnag yw’r rheswm, credaf bod rhaid i'r Pwyllgor Busnes sicrhau nad yw'r ddadl gynnar hon yn y Cyfarfod Llawn yn tanseilio gwaith craffu dilynol gan y Senedd.

Mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig yn bwriadu craffu ar y FfDC yn ystod y cyfnod craffu statudol o 60 diwrnod. Mae'n bwriadu gofyn am ddadl yn y Cyfarfod Llawn cyn diwedd y cyfnod hwnnw. Gobeithiaf y bydd y Pwyllgor Busnes yn sicrhau bod y Senedd yn cael cyfle i gael dadl ar y FfDC sy'n cael ei llywio gan y gwaith a wnaed gan y Senedd a'i Haelodau yn ystod y cyfnod craffu statudol.

Cofion



Mike Hedges AS

Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.